



PRIF GYNHYRCHYDD WYN | PRIME LAMB PRODUCER

CYMHWYSTRA

- Mae'r gystadleuaeth yn agored i Aelodau Ffederasiwn CFFI Gymru, yn ogystal ag aelodau Ffederasiynau CFFI Swydd Henffordd, Swydd Amwythig a Sir Gaer.
- Rhaid i gystadleuwyr fod yn 28 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2024. Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.
- Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

YMGEISIO

- Caniateir un ymgais gan bob aelod, ond gellir cystadlu fel cystadleuydd unigol, dau gystadleuydd neu fel grŵp.
- Dyddiad cau'r cystadleuaeth yw **9fed o Hydref 2024**. Rhaid i'r holl ŵyn fod wedi cael eu prynu erbyn y dyddiad hwn a rhaid iddynt fod ar gael i'w tagio wedi y **1af o Dachwedd**. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau hwyr.
- Bydd rhaid cynnwys tâl cystadlu o **£5.00** gyda phob ffurflen.

MANYLION Y GYSTADLEUAETH

- Rhaid i'r holl ŵyn, yn cynnwys rhai byw ac ar y bachyn, fod wedi'u geni ym mlwyddyn rownd derfynol y gystadleuaeth. Rhaid i unrhyw stoc a ddangosir, ar adeg ymgeisio, fod yn eiddo dilys y sawl y mae ei enw yn ymddangos ar y ffurflen gystadlu.
- Uchafswm y pwysau a ganiateir ar gyfer ŵyn byw yw 105kg, yn unol â rheolau Ffair Aeaf Cymru. Caiff ŵyn dros y pwysau hwn eu diarddel o'r gystadleuaeth.
- Dylai'r aelod ddewis pum oen, a dylai pob un ohonynt fod o fewn y ddau gategori canlynol:
 - Bridiau Ucheldir Cynhenid,
 - Bridiau Iseldir Cynhenid neu
 - Fridiau Cyfandirol Pur.

Dyma'r bridiau a ystyrir yn Fridiau Ucheldir Cynhenid: Balwen; Torddu; Torwen; Defaid Mynydd Cymreig Duon; Cheviot Bryniau Brycheiniog; Cheviot Gogledd yr Alban; Cheviot De'r Alban; Bryniau Ceri; Defaid Mynydd De Cymru; Defaid Mynydd Tregaron; Defaid Mynydd Talybont; Defaid Penfrith; Biwla; Defaid Mynydd Cymreig (Pedigri); Defaid Mynydd Cymreig (Mynydd); Bryniau Maesyfed; Jacob ac unrhyw frid ucheldir cynhenid arall.

Dyma'r bridiau a ystyrir yn Fridiau Iseldir Cynhenid: Llŷn; Llanwenog; Ryeland Lliw; Poll Dorset / Dorset Horn; Suffolk; Ryeland; Southdown ac unrhyw frid iseldir cynhenid arall.

Dyma'r bridiau a ystyrir yn Fridiau Cyfandirol Pur: Beltex, Texel Prydeinig, Dutch Texel, Charollais, Texel Glas, Berrichion Prydeinig, Zwartbles, Bleu du Maine, Charmoise Hill, Rouge Prydeinig ac unrhyw frid cyfandirol pur arall.



PRIF GYNHYRCHYDD WYN | PRIME LAMB PRODUCER

10. Rhaid i'r holl wŷn fod yn fridiau ucheldir neu iseldir pur ac yn unol â'ch pâr byw. Caiff yr wŷn eu harchwilio wrth iddynt gyrraedd, ac os canfyddir nad ydynt yn enghreifftiau nodweddiadol o'r brid dan sylw, cânt eu diarddel.
11. Rhaid i'r holl wŷn fod yn fridiau pur a heb eu hachredu. Derbynnir wŷn sydd wedi'u cofrestru neu heb eu cofrestru.
12. Dylai aelodau ddewis pum oen o'r un brid, a chânt eu tagio gan un o gynrychiolwyr swyddogol CFFI Cymru. O blith y pump, dylai'r aelod ddewis dau i'w dangos yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru.
13. Bydd gwobr y Prif gynhyrchydd wŷn yn cael eu gyflwyno i'r cystadleuydd gyda'r pâr pencampwr goruchaf yn y Ffair Aeaf.
14. Rhaid i'r holl wŷn, fod yn wyn benyw neu wŷn gwryw wedi'u hysbaddu. **NI** chaniateir unrhyw wŷn meheryn. Caiff unrhyw wŷn sy'n arddangos nodweddion gwrywaidd eu diarddel o'r gystadleuaeth.
15. Bydd y beirniadu yn digwydd yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, Llanelwedd, ar 25ain a 26ain Tachwedd 2024. Ni chaniateir i wŷn adael y sioe tan ar ôl yr arwerthiant ar 26ain Tachwedd 2024.
16. Dylai'r wŷn gyrraedd Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ddydd Sul 24ain Tachwedd rhwng 9 y bore a 2 y prynhawn. Caiff yr wŷn eu cadw mewn corlannau yn adran benodol y CFFI, a neilltuir gan y Stiwardiaid.
17. Bydd rhaid pwyso'r wŷn ar y dydd Sul yn y Ffair Aeaf ar yr adeg a bennir. Rhoddir rhifau dangoswyr i gystadleuwyr yn ystod y Pwyso.
18. Yn dibynnu ar faint o wŷn sy'n cystadlu, gellir rhannu categorïau os bydd angen hynny ar sail pwysau, ond penderfyniad CAFC a neb arall fydd hynny.
19. Ni ddylai anifeiliaid sy'n cael eu dangos gan aelodau CFFI Cymru yn y dosbarthiadau CFFI gystadlu mewn unrhyw ddosbarthiadau eraill yn Ffair Aeaf 2024. Gall cystadleuwyr gystadlu yn y gystadleuaeth Biff Ifanc a'r gystadleuaeth Prif Gynhyrchydd Wŷn.

TREFN

20. Mae gan y cystadleuwyr y opswis i gael eu cefnogi gan 'Noddwr', megis cymdeithas brid, sefydliad marchnata, busnes leol neu un o gefnogwyr eraill y diwydiant.
21. Bydd pob cystadleuydd yn cael lle penodol i godi bwrdd a dylid cynnwys manylion am yr wŷn, manylion am y costau priodol, manylion y porthiant a gwybodaeth ynglŷn â'i noddwr. Gall y bwrdd fesur hyd at 3tr x 3tr.
22. Rhaid i'r wŷn byw sy'n cystadlu yn y Ffair Aeaf fod wedi'u golchi cyn cyrraedd, ac ni chaniateir unrhyw tocio na chneifio, ac eithrio sgwaru'r gynffon neu tocio'r gynffon i'w chlanhau. Caiff yr wŷn eu harchwilio gan arbenigwr annibynnol ar adeg y pwyso, ac os canfyddir ei bod wedi'u tocio, ni chaniateir iddynt gystadlu. Ni chaniateir i wŷn a ddangosir yn y gystadleuaeth fod wedi cael eu trochi mewn trochdrwyth yr ychwanegwyd lliw iddo. Rhaid i'r holl baratodau a ddefnyddir fod yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.



PRIF GYNHYRCHYDD WŶN | PRIME LAMB PRODUCER

23. Yn ystod y Ffair Aeaf, bydd yn ofynnol i bob cystadleuydd ddangos eu hŵyn yn y Prif Gylch fel gellir eu beirniadu. Rhaid tywys yr holl ŵyn â phenffestr. Dylai'r ŵyn gael eu tywys gan un cystadleuydd ac un aelod arall dan 28 mlwydd oed. Bydd angen i'r ddau aelod ddangos eu cardiau aelodaeth yn ystod y gystadluaeth.

24. Gwobrau: Caiff Wŷn Byw eu beirniadu ar y diwrnod mewn tri ddsbarth:

**Adran Bridiau Ucheldir Cynhenid,
Adran Bridiau Iseldir Cynhenid ac
Adran Bridiau Cyfandirol Pur**

Bydd pencampwr adran bridiau ucheldir cynhenid Cffi Cymru yn mynd ymlaen i gystadlu yn bencampwriaeth ucheldir neu fynydd Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, a bydd pencampwr adran bridiau iseldir cynhenid Cffi Cymru yn mynd ymlaen i gystadlu yn bencampwriaeth iseldir Ffair Aeaf Frenhinol Cymru.

*Rhoddir gwobr arbennig i'r cystadleuydd newydd sydd â'r nifer uchaf o farciau.

*Rhoddir tlws i'r 'Prif Gynhyrchydd Wŷn Gorau' yn y gystadluaeth.

Prif Gynhyrchydd Wŷn Gorau

Dyfernir 50% o'r marciau am y bwrdd arddangos a manylion y costau. Ystyrir y canlynol:

- Costau,
- Manylion yr Wŷn,
- Gwybodaeth yn hysbysebu'r 'Noddwr',
- Argraff gyffredinol y cyflwyniad ac
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gyflwynir.

Dyfernir 50% o'r marciau am fedrau dangos stoc yn ystod y sioe, a beirnedir hynny dros y 2 ddiwrnod gan ystyried:

- Trin a thrafod a dangos yr ŵyn byw,
- Golwg a lles yr anifeiliaid,
- Taclusrwydd y corlannau yn y sied ddefaid,
- Gwybodaeth lafar i'r cyhoedd
- Agwedd a chydweithrediad aelodau a rhieni â stiwardiaid yr adran a staff a swyddogion y CFFI. Nï fydd unrhyw gam-drin geiriol yn cael ei oddef.
-
- Bydd gwobr yn cael ei ddyfarnu i'r Prif Cynhyrchydd Wŷn Gorau ar ôl i'r tair elfen gael eu beirniadu a chyfrifo y cyfanswm
- Gofynnir i aelodau lenwi taflen aelodaeth amdanynt hwy a'u hŵyn ar adeg pwyso'r ŵyn, a dylid rhoi'r daflen i stiward y CFFI. Defnyddir yr wybodaeth gan y sylwebydd pan ddangosir yr ŵyn yn y cylch.

ARWERTHANT Y FFAIR AEAF

25. Gall cystadleuwyr gynnig eu hŵyn i'w gwerthu yn yr arwerthiant. Cyfrifoldeb yr aelodau fydd hysbysu'r arwerthwyr ynghylch unrhyw isafswm pris y byddant yn dymuno ei bennu i'w hŵyn. Cyfrifoldeb yr aelod yw mynd â'r ŵyn i'r cylch arwerthu pan fydd angen hynny.

MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS

RHEOLAU 2024-2025 RULES

PRIF GYNHYRCHYDD WYN | PRIME LAMB PRODUCER



26. **Rhaid** cynnig y Pencampwyr ac enillwyr Cilwobr y Pencampwyr i'w gwerthu.

27. Daliwch sylw: mae rheolau cyffredinol CFFI Cymru a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn berthnasol i'r gystadleuaeth hon.

28. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan CFFI Cymru ar 01982 553502 neu e-bostiwch materiongwledig@yfc-wales.org.uk

FFURFLEN GAIS CYSTADLEUAETH PRIF GYNHYRCHYDD WYN 2023

I fod yn gymwys i gystadlu yng nghystadleuaeth Prif Gynhyrchydd Cig Oen 2024, cwblhewch **Ffurflen Ar-lein Ffair Aeaf Frenhinol Cymru** erbyn y **9fed o Hydref 2024**.

Bydd y ddolen i Borth Mynediad Ar-lein Frenhinol Cymru yn cael ei gysylltu **YMA** unwaith y byddant wedi agor.

Os ydych chi dan 18 mlwydd oed, mae angen cadarnhad gan riant.

RWYF WEDI DARLLEN RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH AC RWY'N CYTUNO I GADW ATYNT.

materiongwledig@yfc-wales.org.uk

FFEDERASIWN CFFI CYMRU, CANOLFAN CFFI, LLANELWEDD, LLANFAIR YM MUALLT, POWYS, LD2 3NJ